

Benthyciad Ôl-raddedig – canllaw i amodau a thelerau



2017/18



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



	tudalen
1 Canllaw am beth yw hwn	3
2 Contract eich benthyciad	3
3 Pwy sy'n gwneud beth	4
4 Eich cyfrifoldebau chi	5
5 Ad-dalu	7
6 Beth i'w wneud os byddwch yn anfodlon	18
7 Cysylltiadau a rhagor o wybodaeth	19



Mae'r canllaw hwn ar gyfer myfyrwyr sy'n cael Benthyciad Ôl-raddedig yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18.

Mae'n esbonio'r hyn ydych yn ymrwymo iddo pan fyddwch yn cael benthyciad. Mae'n bwysig eich bod yn darllen y canllaw hwn yn ofalus gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth am amodau presennol eich benthyciad a'ch trefniant ad-dalu. **Dylech gadw copi.**

Gallwch weld manylion llawn yr amodau i gael Benthyciad Ôl-raddedig yn y Rheoliadau Addysg (Benthyciad Gradd Meistr Ôl-raddedig).

O bryd i'w gilydd, bydd rheoliadau'r llywodraeth yn newid, ac fe allai'r newidiadau hyn effeithio ar amodau'ch benthyciad. Caiff y canllaw hwn ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau, a'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych chi'r fersiwn diweddaraf. Trowch at **www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk** yn rheolaidd i sicrhau bod gennych chi'r fersiwn diweddaraf.

Os oes gennych chi gwestiynau o hyd ynghylch ad-dalu'ch benthyciad ar ôl darllen y canllaw hwn, trowch at **www.studentloanrepayment.co.uk**. Neu gallwch gysylltu â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig (SLC) gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen 19.



Pan fyddwch yn cael Benthyciad Ôl-raddedig, byddwch yn llofnodi ffurflen datganiad sy'n nodi'ch bod wedi darllen a deall y canllaw hwn. Rhaid i chi gytuno ad-dalu'ch benthyciad yn unol â'r rheoliadau sy'n berthnasol ar yr adeg pan fo'r ad-daliadau'n ddyledus, yn amodol i ddiwygio'r rheoliadau o bryd i'w gilydd.

Mae contract eich benthyciad gyda Gweinidogion Cymru. Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC), sy'n sefydliad llywodraethol di-elw, yn gweithredu fel asiant ar eu rhan. Trowch at y cais am fenthyciad am ragor o fanylion.



Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Mae SLC yn gyfrifol am:

- dalu'ch Benthyciad Ôl-raddedig i chi,
- rheoli'ch cyfrif, gan gynnwys ychwanegu llog ac ad-dalu unrhyw ad-daliadau gormodol,
- casglu ad-daliadau gan ad-dalwyr tramor,
- anfon datganiad atoch bob blwyddyn (ar ôl i chi ddechrau talu ad-daliadau), ac
- ateb cwestiynau am eich Benthyciad Ôl-raddedig.

Cyllid a Thollau EM

Mae Cyllid a Thollau EM (HMRC) yn casglu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr gan gyflogwyr trwy gyfrwng system dreth y DU. Os ydych chi'n hunangyflogedig, byddwch yn ad-dalu trwy'r broses Hunanasesu pan fyddwch yn llenwi'ch ffurflen dreth.

Eich cyflogwr

Os ydych chi'n gyflogedig, bydd eich cyflogwr yn casglu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr ar ran HMRC, gan gymryd ad-daliadau o'ch cyflog yn uniongyrchol, mewn ffordd debyg i dreth trwy gyfrwng Talu Wrth Ennill (PAYE) a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (NICs). Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am sut y cesglir eich ad-daliadau trwy'r system dreth, dylech siarad â'ch cyflogwr neu HMRC.

Rhannu gwybodaeth

Gall HMRC roi gwybodaeth i SLC mewn ffordd gyfreithlon am eich ad-daliadau. Fodd bynnag, ni all HMRC roi unrhyw wybodaeth i SLC am eich materion treth, gan fod y rhain yn gyfrinachol. Yn ogystal, ni fydd eich cyflogwr na HMRC yn cael unrhyw fanylion am gyfrif eich benthyciad, ac eithrio'r ffaith bod gennych chi fenthyciad a'r trothwy ad-dalu sy'n berthnasol i chi. Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn delio â'r broses o gyfnewid gwybodaeth bersonol rhwng SLC, HMRC a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).



Mae cytundeb y Benthyciad Ôl-raddedig yn gontract. Pan fyddwch yn cael Benthyciad Ôl-raddedig, byddwch yn llofnodi ffurflen datganiad sy'n cadarnhau eich bod wedi darllen a deall yr amodau a thelerau. Rhaid i chi gytuno ad-dalu'ch benthyciad yn unol â'r rheoliadau sydd mewn grym ar yr adeg pan fo'r ad-daliadau'n ddyledus ac wrth iddynt gael eu diwygio. Gallai'r rheoliadau newid.

Bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth gyflawn a chywir.

Rhaid i chi sicrhau eich bod yn darparu gwybodaeth gyflawn a chywir pan fyddwch yn cael Benthyciad Ôl-raddedig ac mae'n rhaid i chi ddweud wrth SLC am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn yn ystod y broses ymgeisio, tra byddwch yn y brifysgol a nes i chi ad-dalu'ch benthyciad yn llawn.

Os na fyddwch yn rhoi gwybodaeth fanwl a'r wybodaeth ddiweddaraf i SLC, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu tâl cosb neu ad-dalu'r benthyciad yn ogystal ag unrhyw log a chosbau fel un cyfandaliad.

Er enghraifft, rhaid i chi roi gwybod i SLC:

- os byddwch yn newid eich enw, eich rhif ffôn neu'ch cyfeiriad,
- os byddwch yn newid prifysgol,
- os byddwch yn newid eich cwrs astudio,
- os bydd dyddiad cychwyn neu orffen eich cwrs yn newid,
- os na fyddwch yn dechrau astudio neu os byddwch yn gadael eich cwrs,
- os byddwch yn stopio'ch astudiaethau am unrhyw reswm,
- os ydych yn bwriadu gadael y wlad am dros dri mis, neu
- os byddwch yn newid eich statws cyflogaeth (o fod yn gyflogedig i fod yn hunangyflogedig).

Rhaid i chi ddarparu'ch rhif Yswiriant Gwladol. Ni all SLC brosesu'ch cais heb hwn, oni bai eich bod yn fyfyrwr o'r UE. Dylai myfyrwyr UE y mae ganddynt rif Yswiriant Gwladol ddarparu hwn pan fyddant yn gwneud cais. Bydd SLC yn gofyn i DWP gadarnhau hyn, i osgoi ceisiadau twyllodrus.

Bydd angen i HMRC gael y manylion hyn hefyd, fel y byddant yn gwybod eich bod wedi cael Benthyciad Ôl-raddedig ac y gallant gasglu ad-daliadau, neu ofyn i'ch cyflogwr wneud hynny. Os nad oes gennych chi rif Yswiriant Gwladol neu os ydych chi wedi'i gollu, dylech ffonio llinell gymorth cofrestradau Yswiriant Gwladol HMRC ar **0300 200 3502**.

Bydd angen i chi ad-dalu'ch benthyciad yn unol â'r rheoliadau

Os ydych chi'n gyflogedig, rhaid i chi ddweud wrth eich cyflogwr eich bod wedi cael Benthyciad Ôl-raddedig (sy'n Fenthyciad sy'n Ddibynol ar Incwm [Benthyciad Ôl-raddedig]). Cesglir ad-daliadau trwy system dreth y DU wrth i gyflogwyr gymryd symiau o'ch cyflog trwy gyfrwng system PAYE, a nodir y rhain ar eich slip cyflog. Os ydych chi'n hunangyflogedig neu'n llenwi ffurflen dreth Hunanasesu, byddwch yn talu ad-daliadau trwy'r broses Hunanasesu. Os ydych yn byw mewn gwlad dramor, byddwch yn ad-dalu'ch benthyciad yn uniongyrchol i SLC. Mae'r adran ynghylch ad-dalu, sy'n cychwyn ar dudalen 7, yn sôn am y broses yn fwy manwl.

Mae'r Benthyciad Ôl-raddedig yn Fenthyciad sy'n Ddibynol ar Incwm

Rhwymedigaethau

Bydd rheidrwydd amoch i ad-dalu unrhyw Fenthyciad Ôl-raddedig a dalwyd i chi, os byddwch yn gorffen eich cwrs neu'n sicrhau cymhwyster.

Cyngor defnyddiol

- **Dylech ddarparu gwybodaeth gyflawn a manwl i SLC o'r diwrnod pan fyddwch yn cael eich benthyciad nes iddo gael ei ad-dalu'n llawn neu ei ganslo.**
- **Dylech gadw manylion am eich incwm, megis slipiau cyflog neu ffurflenni P60.** Mae hon yn debyg i'r wybodaeth y bydd angen i chi ei chadw at ddibenion treth cyffredinol, a bydd yn helpu sicrhau eich bod yn ad-dalu'r swm cywir. Yn ogystal, bydd eich slipiau cyflog a'ch ffurflenni P60 yn nodi swm unrhyw ad-daliadau benthyciad myfyriwr y mae'ch cyflogwr yn eu cymryd o'ch cyflog.



Rhaid i chi ad-dalu'ch Benthyciad Ôl-raddedig yn unol â'r contract a'r rheoliadau.

Pryd fyddaf yn ad-dalu?

Bydd gofyn i chi ddechrau ad-dalu'ch benthyciad ym mis Ebrill ar ôl i chi gwblhau neu adael eich cwrs.

Fodd bynnag, ni chaiff unrhyw ad-daliadau Benthyciad Ôl-raddedig eu cymryd cyn mis Ebrill 2019.

Dim ond pan fydd eich incwm yn uwch na £404 yr wythnos, £1,750 y mis neu £21,000 y flwyddyn y byddwch yn dechrau talu ad-daliadau. Os bydd eich incwm yn gostwng yn is na'r trothwyon ad-dalu hyn, bydd yr ad-daliadau'n stopio ac ni fyddant yn ailgychwyn nes bydd eich incwm yn uwch na'r trothwyon ad-dalu hyn.

Os byddwch yn gadael eich cwrs yn gynnar ac os rhoddir gordaliad i chi, bydd angen i chi ad-dalu'r swm hwn cyn gynted ag y bo modd. Mae hyn yn golygu na fyddwch yn ennill swm sy'n uwch na'r trothwy ad-dalu efallai.

Gallwch wneud ad-daliadau gwirfoddol ar unrhyw adeg i ad-dalu'ch benthyciad yn gyflymach.

Beth fyddaf yn ei ad-dalu?

Mae ad-daliadau'n seiliedig ar eich incwm, nid faint fyddwch yn ei fenthyca. Gelwir hyn yn ad-daliad 'sy'n ddibynnol ar incwm'.

Byddwch yn ad-dalu 6% o'ch incwm dros £21,000 y flwyddyn. Hyd yn oed os nad yw'ch incwm yn uwch na £21,000 y flwyddyn ond mae dros £404 yr wythnos neu £1,750 y mis ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn (er enghraifft, os byddwch yn gwneud gwaith goramser), caiff didyniad benthyciad ei wneud.


Er enghraifft, os ydych yn cael eich talu bob mis ac os byddwch yn ennill £2,500 y mis cyn treth, byddech yn ad-dalu 6% o'r gwahaniaeth rhwng faint ydych yn ei ennill a'r trothwy (£1,750):

$$£2,500 - £1,750 = £750$$

$$6\% \text{ o } £750 = £45$$

Felly swm ad-daliad eich Benthyciad Ôl-raddedig fyddai £45 y mis hwnnw.

Eich incwm misol



£750

dros y trothwy ad-dalu



Byddwch yn ad-dalu



6%

£45 y mis

Os bydd eich incwm yn newid, gan godi neu ostwng, bydd eich symiau ad-dalu yn newid yn awtomatig i adlewyrchu hyn. Efallai y bydd y trothwy ad-dalu yn wahanol os byddwch yn symud i fyw i wlad y tu allan i'r DU. Mae tudalen 12 yn esbonio hyn yn fanylach.

Symiau ad-dalu enghreifftiol		
Incwm blynyddol cyn treth	Incwm misol	Ad-daliad misol
Hyd at £21,000	Hyd at £1,750	£0
£22,000	£1,833	£4
£23,500	£1,958	£12
£25,000	£2,083	£19
£27,000	£2,250	£30
£30,000	£2,500	£45

Faint o log fydda i'n ei dalu?

Codir llog arnoch ar y benthyciad o'r diwrnod pan fyddwn yn talu eich taliad cyntaf i chi, nes caiff eich benthyciad ei ad-dalu'n llawn neu ei ganslo. **Mae'r llog ar eich benthyciad yn seiliedig ar chwyddiant. Y gyfradd llog fydd y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) a 3%.**

I weld y cyfraddau llog diweddaraf, trowch at www.studentloanrepayment.co.uk

Sut fyddaf yn ad-dalu?

Cesglir ad-daliadau Benthyciad Ôl-raddedig trwy system dreth y DU (Talu Wrth Ennill – PAYE) os ydych yn gyflogedig, neu trwy'r broses Hunanasesu os ydych yn hunangyflogedig.

Beth fydd yn digwydd os wyf yn gyflogedig?

Os ydych chi'n gyflogai sy'n talu treth yn y DU, bydd eich cyflogwr yn cymryd ad-daliadau o'ch tâl, ynghyd â threth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Dangosir eich ad-daliadau ar eich slip cyflog fel didyniad gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

Bydd SLC yn dweud wrth HMRC ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs, gan roi manylion iddynt fel eich enw a'ch rhif Yswiriant Gwladol. Ar ôl mis Ebrill 2019, bydd HMRC yn edrych i weld a ydych chi'n gweithio ac os ydych, byddant yn dweud wrth eich cyflogwr eich bod wedi cael Benthyciad Ôl-raddedig (ond nid y swm).

Yn ogystal, efallai yr hysbysir cyflogwyr o'r ffaith bod angen iddynt wneud didyniadau trwy ffurflenni treth arferol. Pan fyddwch yn newid eich swydd neu'n dechrau gweithio, bydd yn rhaid i chi hysbysu'ch cyflogwr newydd eich bod yn gyfrifol am dalu ad-daliadau Benthyciad Ôl-raddedig. Efallai y bydd eich hen gyflogwr yn rhoi P45 i chi, a dylent fod wedi nodi 'Y' yn y blwch benthyciad myfyriwr i roi gwybod i'ch cyflogwr newydd y dylent wneud

didyniadau ar gyfer benthyciad myfyriwr. Yn ogystal, efallai y bydd cyflogwr newydd yn gofyn i chi lenwi datganiad cychwynnwr cyn dechrau talu'ch cyflog. Dylech hysbysu'ch cyflogwr newydd ar hon y bydd gofyn i chi dalu ad-daliadau.

Sut fydd cyflogwyr yn gwybod faint i'w gymryd o'm tâl?

Bydd HMRC yn rhoi gwybodaeth i'ch cyflogwr fel y gallant gyfrifo faint i'w gymryd o'ch tâl. Os bydd eich tâl yn uwch na'r trothwy ad-dalu yn ystod y cyfnod tâl, bydd eich cyflogwr yn cymryd ad-daliadau ac yn eu trosglwyddo i HMRC. Bydd eich cyflogwr yn talgrynnu'r symiau y byddant yn cymryd o'ch tâl i lawr i'r bunt agosaf.

Bydd HMRC yn cymryd yr wybodaeth hon gan eich cyflogwr, gan roi gwybod i SLC faint ydych chi wedi'i ad-dalu. Yna, bydd SLC yn diweddarau'ch cyfrif. Bydd yn cymryd ychydig amser ar ôl diwedd pob blwyddyn dreth i ddiweddarau'ch cyfrif. Defnyddir yr ad-daliadau a wnaethpwyd gennych i ad-dalu'ch benthyciad. Bydd SLC yn sicrhau bod swm cywir y llog wedi cael ei ychwanegu i'ch cyfrif. Ni fyddwch yn talu unrhyw log ychwanegol, hyd yn oed os bydd yn cymryd ychydig amser i'ch manylion ad-dalu gyrraedd SLC.

Caiff ad-daliadau a gymerir gan eich cyflogwr eu cyfrifo ar sail 'cyfnodau talu unigol' ac nid ar gyfanswm eich incwm ar gyfer blwyddyn gyfan. Nid yw credydau treth a Chredydau Cynhwysol yn cyfrif fel incwm wrth gyfrifo swm eich ad-daliad benthyciad myfyriwr.

Dim ond ar ôl diwedd y flwyddyn dreth fydd HMRC yn gwybod y cyfanswm fydd eich cyflogwr wedi'i gymryd dros y flwyddyn dreth gyfan. Mae'r cynllun yn gweithio mewn ffordd debyg i ddidyniadau treth. Mae angen i chi gadw golwg ar beth sy'n cael ei gymryd o'ch tâl bob mis, oherwydd ni fydd SLC yn gwybod faint sy'n dal yn ddyledus ar eich benthyciad nes bydd HMRC wedi trosglwyddo'r wybodaeth i SLC.

Mae gan gyflogwyr gyfrifoldeb cyfreithiol i anfon symiau cywir ad-daliadau Benthyciad Ôl-raddedig i HMRC. Gellir eu dirwyo os na fyddant yn gwneud hyn.

Newid swydd

Rhaid i chi ddweud wrth eich cyflogwr eich bod yn gyfrifol am dalu ad-daliadau benthyciad myfyriwr a'ch bod wedi cael Benthyciad Ôl-raddedig. Os na fydd eich ad-daliadau'n cychwyn ar yr adeg y dylent gychwyn, dylech ddweud wrth eich cyflogwr yn y lle cyntaf. Os na fydd modd i'ch cyflogwr ddatrys y mater, dylech gysylltu ag SLC i'ch helpu.

Ad-dalu taliadau pan fo'r incwm yn is na'r trothwy

Mae'n bosibl y byddwch yn talu rhai ad-daliadau yn ystod blwyddyn dreth er bod cyfanswm eich incwm ar gyfer y flwyddyn honno yn is na'r trothwy. Mewn amgylchiadau arbennig, efallai y bydd yn rhaid i chi wneud cais am ad-daliad ar

ddiwedd y flwyddyn dreth, er enghraifft, os cawsoch chi daliad bonws ac os cymrwyd didyniad, er bod eich cyflog blynyddol yn is na'r trothwy.

Ni fydd SLC yn talu ad-daliadau oni bai eich bod yn gofyn iddynt wneud hyn, ac ni fydd modd iddynt dalu ad-daliadau nes bydd HMRC wedi cadarnhau cyfanswm eich enillion a chyfanswm eich ad-daliadau ar ôl diwedd y flwyddyn dreth. Wrth gwrs, efallai na fyddwch yn dymuno cael ad-daliad oherwydd bydd yr ad-daliadau hyn yn lleihau'r swm dyledus, felly byddwch yn ad-dalu'ch benthyciad yn gyflymach. Ni fydd SLC yn ad-dalu unrhyw ad-daliadau a wnaethoch chi o'ch gwirfodd.

Cyflogeion y mae HMRC yn gofyn iddynt lenwi ffurflenni Hunanasesu

Os ydych chi'n gyflogai sy'n llenwi ffurflen dreth dan y system Hunanasesu (SA) hefyd, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu rhai ad-daliadau benthyciad gyda'r ffurflen, yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu cymryd gan eich cyflogwr. Mae cyfanswm y Benthyciad Ôl-raddedig y mae'n rhaid i chi ei ad-dalu ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar gyfanswm eich incwm ar gyfer y flwyddyn – hynny yw, eich holl incwm PAYE ac unrhyw incwm hunangyflogedig ychwanegol ac unrhyw incwm nas enillwyd (os yw dros £2,000 y flwyddyn). Gallwch gael credyd yn eich ffurflen dreth am unrhyw symiau Benthyciad Ôl-raddedig y mae'ch cyflogwr wedi eu cymryd yn barod yn ystod y flwyddyn, fel na fyddwch yn ad-dalu gormod.

Yn yr un modd â PAYE, bydd y system SA yn cyfrifo'ch ad-daliadau benthyciad ar sail eich incwm dros y trothwy ad-dalu, ar gyfradd o 6%. Bydd unrhyw ad-daliadau SA yn ddyledus erbyn 31 Ionawr yn dilyn blwyddyn dreth eich asesiad. Gallwch gael gwybodaeth ynghylch sut i lenwi'ch ffurflen dreth SA yn yr arweiniad a'r llyfrynnau a ddarparir gan HMRC.

Os ydych yn talu treth yn y DU ac os ydych yn cael ffurflen dreth Hunanasesu, dylech ddefnyddio hon i ddatgan ad-daliadau Benthyciad Ôl-raddedig. Rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon yn gywir a'i dychwelyd mewn pryd. Yn ogystal, rhaid i chi dalu'ch ad-daliadau Benthyciad Ôl-raddedig a'ch treth mewn pryd. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd rhaid i chi dalu llog a chosbau ariannol. Mae hyn oherwydd y caiff Benthyciadau Ôl-raddedig eu trin yn yr un ffordd â threth at ddibenion Hunanasesu.

Beth fydd yn digwydd os bydd busnes fy nghyflogwr yn dod i ben neu os na fydd yn talu fy nidyniadau i HMRC?

Ar yr amod bod gennych chi dystiolaeth o'r ffaith y casglwyd didyniadau, fel eich slipiau cyflog, bydd SLC yn credydu swm llawn yr ad-daliadau i'ch cyfrif.

Beth fydd yn digwydd os ydw i'n hunangyflogedig?

Os ydych chi'n hunangyflogedig, bydd rhaid i chi anfon ffurflen dreth at HMRC bob blwyddyn dan y system Hunanasesu (SA). Bydd eich ad-daliadau benthyciad myfyriwr yn ddyledus fel rhan o'ch bil treth SA. Mae ad-daliad y benthyciad myfyriwr yn seiliedig ar eich incwm gros dros y trothwy ad-dalu, gan gynnwys eich incwm heb ei ennill (er enghraifft, incwm ar ffurf dididend o gyfranddaliadau) os yw'n werth mwy na £2,000 y flwyddyn. Mae rhai pwyntiau cyffredinol i'w cofio wrth gyfrifo'ch incwm bob blwyddyn:

- Ni ystyrir incwm eich gŵr, eich gwraig, eich partner, eich rhiant neu unrhyw berthynas arall.
- Ni ystyrir incwm o Fudd-dal Plant a budd-daliadau anabledd, gan gynnwys y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.
- Ni ystyrir credydau treth a Chredyd Cynhwysol.
- Os byddwch yn talu ad-daliadau gwirfoddol, byddwch yn dal angen talu unrhyw ad-daliadau sy'n ddyledus trwy'r system SA.

Beth fydd yn digwydd os ydw i'n bwriadu teithio neu weithio mewn gwlad dramor?

Os nad ydych yn talu treth yn y DU neu os ydych yn bwriadu gadael y DU am dros dri mis ar unrhyw adeg ar ôl i chi gwblhau neu adael eich cwrs (os bydd hyn am gyfnod dros dro neu oherwydd y byddwch yn byw mewn gwlad arall), rhaid i chi dalu ad-daliadau i SLC yn uniongyrchol. Rhaid i chi roi gwybod i SLC cyn y byddwch yn gadael y DU. Os na fyddwch, gallant godi cosbau ariannol ar eich benthyciad ac yn ôl yr angen, gofyn i chi ad-dalu swm llawn y benthyciad a'r llog a'r cosbau fel un cyfandaliad.

Bydd SLC yn gofyn i chi am fanylion eich incwm a bydd yn cyfrifo faint y dylech ei ad-dalu bob mis. Bydd SLC yn ysgrifennu atoch gyda rhagor o fanylion am eich dewisiadau ad-dalu pan fydd gofyn i chi ddechrau ad-dalu, er y gallwch dalu ad-daliadau gwirfoddol ar unrhyw adeg. Byddant yn newid eich incwm i bunnoedd sterling ac yn dweud wrthyf faint fydd angen i chi ei ad-dalu bob mis mewn punnoedd sterling.

Caiff eich amserlen ad-dalu fisol ei chyfrifo gan ddefnyddio'r un rheolau â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer y rhai sy'n aros yn y DU. Felly, byddwch yn ad-dalu 6% o'ch incwm dros y trothwy ad-dalu. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd y trothwy ad-dalu ar gyfer y wlad yr ydych chi'n byw ynddi'r un fath ag y mae yn y DU, gallai fod yn uwch neu'n is. Bydd SLC yn gofyn i chi dalu ad-daliadau mewn punnoedd sterling. Byddwch chi'n gyfrifol am dalu unrhyw gostau sy'n

gysylltiedig â newid yr arian a bydd yn rhaid i chi dalu unrhyw daliadau a godir gan eich banc i drosglwyddo'r arian i SLC.

Os byddwch yn symud i wlad dramor a ddim yn gyfrifol am dalu treth yn y DU mwyach, ac os byddwch yn methu talu ad-daliadau sy'n ddyledus neu'n methu rhoi gwybodaeth i SLC y bydd yn gofyn amdani, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosbau. Ceir tri achos penodol lle y gallai'r cosbau hyn gael eu codi. Os na fyddwch:

- yn rhoi gwybod i SLC eich bod yn mynd i wlad dramor am dros dri mis, efallai y codir cosbau pellach arnoch os na fyddwch yn ymateb i geisiadau am wybodaeth wedi hyn,
- yn rhoi gwybod i SLC eich bod yn mynd i wlad dramor, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu costau unrhyw asiantau y bydd SLC yn eu cyflogi i ddod o hyd i chi, neu'n
- rhoi gwybodaeth lawn i SLC am eich incwm blynyddol, bydd eich ad-daliadau'n swm penodedig yn seiliedig ar yr amserlen ad-dalu uchaf ar gyfer y wlad yr ydych chi'n byw ynddi.

Efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu cyfanswm y benthyciad fel un cyfandaliad os bydd unrhyw rai o'r pwyntiau hyn yn berthnasol i chi.

Os na fyddwch yn rhoi manylion eich incwm i SLC, efallai y codir swm penodedig arnoch chi, gan ddiybennu ar ble rydych yn byw, a allai fod yn uwch na'r swm ad-dalu ar sail eich incwm go iawn. Os na fyddwch yn ad-dalu'r swm hwn, efallai y bydd SLC yn cymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn.

Pryd gaiff fy menthyciad ei ganslo?

Caiff unrhyw Fenthyciad Ôl-raddedig a fydd yn weddill 30 o flynyddoedd ar ôl yr adeg pan fydd gofyn i chi ddechrau talu ad-daliadau, ei ganslo.

Rhaid eich bod wedi talu'r holl ad-daliadau a seiliwyd ar eich incwm tan y dyddiad hwnnw. Os na, mewn rhai achosion, efallai y bydd SLC yn adennill unrhyw symiau sy'n ddyledus o hyd tan y dyddiad hwnnw.

Ceir amgylchiadau lle gallai'ch benthyciad gael ei ganslo ac ni fydd yn rhaid i chi ei ad-dalu'n llawn, megis os byddwch yn marw neu os byddwch yn mynd yn anabl ac yn methu gweithio, a bod hon yn sefyllfa barhaol.

Os hoffech gael gwybod mwy am yr amgylchiadau lle caiff benthyciadau eu canslo, trowch at

www.studentloanrepayment.co.uk

Gwneud ad-daliadau gwirfoddol

Gallwch ad-dalu'ch benthyciad yn gyflymach trwy dalu ad-daliadau gwirfoddol ar unrhyw adeg. Gallwch wneud hyn ar **www.studentloanrepayment.co.uk**

Os byddwch yn dewis talu ad-daliadau gwirfoddol ychwanegol i SLC yn uniongyrchol, byddwch yn ad-dalu'ch benthyciad yn gyflymach. Fodd bynnag, oni bai eich bod yn ad-dalu'ch benthyciad yn llawn, ni fydd unrhyw ad-daliadau gwirfoddol y byddwch yn eu gwneud yn effeithio ar y swm a gesglir trwy'r system

dreth. Felly, os ydych yn gyflogedig, bydd yn rhaid i'ch cyflogwr gymryd ad-daliadau o'ch cyflog o hyd. Os ydych yn gwsmer sy'n Hunanasesu, byddwch yn dal angen ad-dalu'r swm sy'n ddyledus, yn seiliedig ar eich incwm ar gyfer y flwyddyn. Ni allwch gael ad-daliad o unrhyw symiau y byddwch yn eu had-dalu o'ch gwirfodd, oni bai eich bod wedi gorffen ad-dalu'ch benthyciad, ac rydych chi wedi ad-dalu gormod.

Datganiadau blynyddol

Sefydlwyd y system ad-dalu benthyciadau myfyrwyr i ddefnyddio'r system dreth i gasglu'ch ad-daliadau. O ganlyniad, dim ond unwaith y flwyddyn y gall SLC ddiweddarau'ch cyfrif, ar ôl cael eich gwybodaeth ad-dalu gan HMRC.

Ar ôl i chi ddechrau talu ad-daliadau, byddwch yn cael datganiad fel a ganlyn:

- Os ydych yn talu'ch holl ad-daliadau trwy'ch cyflogwr trwy'r system PAYE, byddwch yn cael datganiad ar ôl diwedd y flwyddyn dreth. Os oedd gennych chi fwy nag un cyflogwr yn ystod y flwyddyn dreth, efallai y byddwch yn cael mwy nag un datganiad ar gyfer y flwyddyn honno. Nodir y datganiadau hyn mewn ffordd glir fel y 'datganiad interim' a'r 'datganiad terfynol'. Mae hyn oherwydd y gallai SLC gael gwybod ar wahanol adegau am eich ad-daliadau benthyciad gan bob cyflogwr.

- Os ydych chi'n talu ad-daliadau i HMRC yn uniongyrchol, trwy'r system Hunanasesu, byddwch yn cael datganiad ar ôl i'ch cyfrif gael ei ddiweddarau, yn nodi'r ad-daliadau a dalwyd. Fodd bynnag, os byddwch yn cyflwyno'ch ffurflen dreth Hunanasesu yn hwyr, byddwch yn cael datganiad ar ddiwedd y mis pan fydd HMRC yn rhoi gwybod i SLC am eich incwm.
- Os ydych chi y tu allan i system dreth y DU (er enghraifft, os ydych yn byw ac yn gweithio mewn gwlad dramor), byddwch yn cael datganiad ar ôl 5 Ebrill bob blwyddyn. Mae hyn yn golygu y bydd datganiadau'n cyrraedd ryw bryd ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, ac y byddant yn cynnwys ad-daliadau a wnaethpwyd tan ddiwedd y flwyddyn honno yn unig.

Os byddwch yn cadw eich datganiad, ynghyd â'ch P60 a'ch slipiau cyflog, sy'n cynnwys manylion eich ad-daliadau, gallwch ddefnyddio'r rhain i gyfrifo faint y mae gennych ar ôl i'w ad-dalu.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am eich cyfrif, neu os hoffech gael help wrth gyfrifo faint sydd gennych chi ar ôl i'w ad-dalu, trowch at

www.studentloanrepayment.co.uk neu ffoniwch SLC gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen 19.

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn dod at ddiwedd fy ad-daliadau benthyciad?

Pan fyddwch yn agosáu at ddiwedd eich ad-daliadau, bydd SLC yn cysylltu â chi i drafod newid i dalu trwy gyfrwng Debyd Uniongyrchol. Fodd bynnag, os ydych chi'n gwybod eich bod yn agosáu at y pwynt hwn, dylech gysylltu ag SLC i ad-dalu'ch balans fel hyn.

Mae hwn yn gynllun gwirfoddol sy'n caniatáu i chi optio allan o dalu ad-daliadau trwy gyfrwng PAYE, a thalu ad-daliadau Debyd Uniongyrchol i SLC yn uniongyrchol. Argymhellir eich bod yn gwneud hyn i helpu sicrhau na fyddwch yn ad-dalu swm uwch na'ch benthyciad. Bydd yn rhaid i chi dalu'ch Debyd Uniongyrchol bob mis ar y dyddiad a gytunwyd. Os na fyddwch yn talu'r taliad, efallai y bydd SLC yn atal y dewis hwn, a bydd yn rhaid i chi ddychwelyd i'r trefniant o dalu'ch benthyciad trwy gyfrwng PAYE.

I gael gwybod mwy am y cynllun i Atal Ad-dalu Gormod, trowch at **www.studentloanrepayment.co.uk**

Mae'n bwysig eich bod yn cadw golwg ar eich ad-daliadau. Os na fyddwch, ceir siawns y gallech ad-dalu mwy na'r swm gofynnol.

Bydd eich slipiau cyflog yn rhoi diweddariad rheolaidd i chi am beth ydych yn ei ad-dalu a bydd eich P60 yn dangos cyfanswm eich ad-daliadau mewn blwyddyn benodedig. Gan na fydd SLC yn cael yr wybodaeth hon tan ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, mae'n bwysig eich bod yn cadw gafaef arnynt, yn yr un modd ag y mae'n bwysig eich bod yn eu cadw'n ddiogel at ddibenion treth.

Ad-dalu gormod

Os byddwch yn ad-dalu swm uwch na'r swm sy'n ddyledus ar eich benthyciad, byddwch yn cael ad-daliad, gan gynnwys unrhyw log sy'n ddyledus i chi.

Bydd SLC yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'r ffaith y bydd llog yn cronni am 60 diwrnod pellach yn unol ag RPI +3%. Ar ôl y 60 diwrnod, ni ychwanegir unrhyw log pellach i falans y credyd ar eich cyfrif.

Am ragor o wybodaeth, trowch at www.studentloanrepayment.co.uk

Beth fydd yn digwydd os bydd didyniadau eraill o'm hincwm?

Efallai y bydd didyniadau eraill o'ch incwm y bydd angen eu hystyried wrth gyfrifo'ch ad-daliadau. Er enghraifft, os oes llys neu awdurdod lleol wedi gosod Gorchymyn Atafaelu Enillion (AEO) arnoch, neu os bydd yr Asiantaeth Cynnal Plant wedi gosod Gorchymyn Didyniadau Enillion (DEO) arnoch chi.

Os mai diben un o'r gorchymynion yw casglu Treth Gyngor neu Dâl Cymunedol, ni fydd eich cyflogwr yn cymryd ad-daliadau benthyciad myfyriwr nes bydd y gorchymyn hwnnw wedi clirio. Rhoddir sylw i orchmynion i gasglu taliadau cynnal plant, dirwyon neu daliadau cynhaliaeth cyn ad-daliadau Benthyciad Ôl-raddedig. Gallai swm y Benthyciad Ôl-raddedig a gymerir gael ei gyfyngu i sicrhau na fydd eich cyflog clir (eich tâl ar ôl didyniadau) yn gostwng yn is nag unrhyw lefel warchoddedig a bennir gan y llys. Rhoddir sylw i unrhyw orchmynion llys eraill i gasglu dyledion eraill ar ôl cymryd swm y Benthyciad Ôl-raddedig.

Sut bynnag y byddwch yn ad-dalu'ch benthyciad, os byddwch yn parhau i beidio rhoi gwybodaeth y bydd SLC yn gofyn amdani ac o ganlyniad, ni fyddwch yn talu ad-daliadau sy'n ddyledus, bydd ganddynt yr hawl i gymryd camau cyfreithiol i adennill eich dyled. Mae hyn yn golygu y gall SLC gael gorchymyn llys i'ch gorfodi i ad-dalu cyfanswm y llog ac unrhyw log a chosbau fel un taliad.

Gellir gorfodi hyn trwy'r llysoedd fel dyled sifil os ydych yn byw yn y DU neu'n byw mewn gwlad dramor.

Beth fydd yn digwydd os bydd gennyf fenthyciad myfyriwr yn barod?

Ni fydd cael Benthyciad Ôl-raddedig yn effeithio ar y trefniant i ad-dalu unrhyw fenthyciadau myfyriwr eraill yr ydych chi wedi'u cael yn flaenorol. Os byddwch chi wedi cael unrhyw fenthyciadau eraill gan SLC, byddwch yn ad-dalu'r rhain ar yr un pryd ag y byddwch yn ad-dalu'ch Benthyciad Ôl-raddedig.

Bydd faint fyddwch yn ei ad-dalu tuag at y benthyciadau myfyrwyr yr ydych chi wedi'u cael yn barod, yn dibynnu ar pryd wnaethoch chi astudio.

Os cychwynnoch ar eich cwrs israddedig ar neu ar ôl 1 Medi 2012 (Cynllun 2)

Byddwch yn ad-dalu 9% o'ch incwm dros £21,000 tuag at y benthyciadau myfyrwyr y gwnaethoch eu benthycia ar gyfer eich cwrs israddedig a 6% o'ch incwm dros £21,000 tuag at eich Benthyciad Ôl-raddedig. Mae hyn yn golygu y byddwch yn ad-dalu 15% o'ch incwm dros £21,000 at ei gilydd.

Incwm bob blwyddyn (cyn treth)	Cyflog misol	Ad-daliad benthyciad israddedig	Ad-daliad Benthyciad Ôl-raddedig
Hyd at £21,000	Hyd at £1,750	£0	£0
£22,000	£1,933	£7	£4
£23,500	£1,958	£18	£12
£25,000	£2,083	£29	£19
£27,000	£2,250	£45	£30
£30,000	£2,500	£67	£45

Os cychwynnoch ar eich cwrs israddedig rhwng 1 Medi 1998 a 1 Medi 2012 (Cynllun 1)

Byddwch yn ad-dalu 9% o'ch incwm dros y trothwy ad-dalu, sef £17,775 ar hyn o bryd, tuag at y benthyciad myfyriwr y gwnaethoch chi ei fenthycyca ar gyfer eich cwrs israddedig a 6% o'ch incwm dros £21,000 tuag at eich Benthyciad Ôl-raddedig.

Incwm bob blwyddyn (cyn treth)	Cyflog misol	Ad-daliad benthyciad israddedig	Ad-daliad Benthyciad Ôl-raddedig
£17,775	£1,481	£0	£0
£21,000	£1,750	£24	£0
£22,000	£1,833	£31	£4
£25,000	£2,083	£54	£19
£27,000	£2,250	£69	£30
£30,000	£2,500	£91	£45

Os cychwynnoch ar eich cwrs cyn 1 Medi 1998

Byddwch yn parhau i ad-dalu neu ohirio'r benthyciadau y cawsoch ar gyfer eich cwrs israddedig, a byddwch yn ad-dalu 6% o'ch incwm dros £21,000 tuag at eich Benthyciad Ôl-raddedig. Ni fydd modd i chi ohirio'ch Benthyciad Ôl-raddedig – bydd eich ad-daliadau'n stopio'n awtomatig os bydd eich incwm yn is na'r trothwy.



Cwynion

Os na fyddwch yn fodlon â'r ffordd y cesglir eich ad-daliadau, dylech gysylltu ag SLC. Gallwch gofrestru cwyn trwy:

- ffonio **0300 100 0601**
- anfon neges e-bost at **customer_complaints@slc.co.uk**
- ysgrifennu at Customer Relations Unit,
Student Loans Company,
100 Bothwell Street,
Glasgow
G2 7JD

Gellir lawrlwytho ffurflen Cwynion Cwsmeriaid ar-lein ar **www.slc.co.uk**


Ar ôl gwneud hyn, os byddwch yn teimlo'n anfodlon o hyd, gallwch drefnu bod adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal o'ch achos. Fel arfer, caiff adolygiadau annibynnol eu cynnal gan:

- yr Aseswr Benthyciadau Myfyrwyr ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd gan SLC,
- y Dyfarnwr ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd gan HMRC, neu
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd gan y llywodraeth y tu allan i Loegr (am fanylion, trowch at **www.ombwdsmon-cymru.org.uk**).

Apeliadau

Mae'r rhain yn wahanol i gwynion. Efallai eich bod yn fodlon â'r ffordd y deliwyd â'ch cyfrif ond eich bod o'r farn bod penderfyniad a wnaethpwyd am eich cyfrif yn anghywir, ac rydych yn dymuno apelio. Fel yn achos cwynion, bydd gan SLC weithdrefnau i ddelio ag apeliadau a dylech ddilyn y rhain. Bydd yr Aseswr Benthyciadau Myfyrwyr yn delio ag apeliadau a wneir yn erbyn gwasanaethau a ddarparir gan SLC hefyd.

Mewn amgylchiadau penodol, efallai y byddwch yn ystyried defnyddio'r systemau cyfreithiol, er enghraifft, llys sirol, i ddatrys eich problem. Os hoffech wneud hyn, dylech gael cyngor cyfreithiol annibynnol yn y lle cyntaf, er enghraifft gan gyfreithiwr, canolfan cyngor cyfreithiol neu Gyngor ar Bopeth.



Os bydd angen i chi gysylltu ag SLC, cofiwch sicrhau bod eich Cyfeirnod Cwsmer wrth law.

Gallwch ffonio **0300 100 0494** rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Neu ysgrifennu at:

Benthyciad Ôl-raddedig
BLWCH POST 211
Cyffordd Llandudno
LL30 9FU

I gael gwybod mwy am y Benthyciad Ôl-raddedig:

- trowch at **www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk**, neu
- siaradwch â'ch prifysgol

Am ragor o wybodaeth ynghylch ad-dalu, trowch at **www.studentloanrepayment.co.uk** neu ffoniwch **0300 100 0611**

Gallwch weld manylion llawn yr amodau i gael ac ad-dalu Benthyciad Ôl-raddedig yn y Rheoliadau Addysg (Benthyciad Gradd Meistr Ôl-raddedig).

Gallwch ddarllen y rheoliadau hyn ar-lein ar **www.legislation.gov.uk** neu archebu copi ohonynt gan Lyfrfa Ei Mawrhydi (TSO) Ltd (llinell archebu dros y ffôn **0870 600 5522**).
Neu eu harchebu ar-lein ar **www.tsoshop.co.uk**

Gallwch lawrlwytho rhagor o gopiau o'r canllaw hwn ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk**.

Gallwch archebu fersiynau Braille, fersiynau print mawr neu fersiynau sain o ffurflenni a chanllawiau hefyd trwy anfon neges e-bost gyda'ch manylion, ynghyd â'r ffurf a fformat sydd angen, at **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu gallwch ein ffonio ar **0141 243 3686**.

Sylwer, dim ond gyda cheisiadau am ffurflenni a chanllawiau mewn ffurfiau amgen y mae modd i'r cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod ddelio â nhw.

WG32179

ISBN: 978-1-4734-9809-9

© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr HMSO 2017.
Cynhyrwyd gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar ran Llywodraeth Cymru.

Gellir atgynhyrchu darnau o'r ddogfen hon at ddibenion ymchwil, addysg neu hyfforddiant anfasnachol, ar yr amod bod y ffynhonnell yn cael ei chydabod. Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall, cysylltwch â: **HMSOlicensing@cabinetoffice.x.gsi.gov.uk**

Diben y llyfryn hwn yw cynnig arweiniad yn unig, ac nid yw'n ddatganiad o'r gyfraith.